# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD LLUN, 25AIN IONAWR, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Teams**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**EirianRoberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 20/01/21)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

## AELODAU CABINET

Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams (Addysg)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Cyllid)

## PRIF WEITHREDWR

Mr Dilwyn Williams

## PENNAETH CYLLID

Dafydd Edwards

## PENAETHIAID UWCHRADD

Mr Dylan Davies – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Arwyn Williams – Ysogl Tryfan

## PENAETHIAID CYNRADD

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mrs Menna Wynne Pugh – Ysgol Penybryn
Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Cymerau
Mr Richard Dewyn Jones – Ysgol Garndolbenmaen
Mr Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Mrs Eleri Morgan Davies – Ysgol Y Gorlan

## UNDEBAU ATHRAWON

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

## LLYWODRAETHWYR

Arfon
Mr Godfrey Northam - Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Edward Bleddyn Jones – Ysgol Tregarth

Meirionnydd
Gwilym Eifion Roberts, Ysgol Godre'r Berwyn

Dwyfor
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Disgwyl Enwebiad – Llywodraethwr Uwchradd

## ESGOBAETH

Anest Gray Frazer

## YSGOLION EGLWYS

Mr Elfed Morgan Morris – Ysgol Llandygai

## YSGOLION ARBENNIG

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion:**

Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau
Ms Kathy Bell, Cyfrifydd Grŵp Ysgolion
Ms Gwenan Davies Jones - Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Ms Ellen Williams - Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 5 - 8

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2020 (ynghlwm).

## 5. MATERION YN CODI O’R COFNODION

Adroddiadau llafar gan Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion) ar:-

- COVID – costau ychwanegol / colled incwm 2020/21;
- Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol 2020/21

## 6. RHAGOLYGON YSGOLION 9

Adroddiad gan Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion) (ynghlwm).

## 7. CYLLIDEB Y CYNGOR 2021/22

Adroddiad llafar a chyflwyniad sleidiau gan Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid).

## 8. STRATEGAETH DIGIDOL YSGOLION

Adroddiad llafar gan Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirionnydd).

## 9. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH 2021-24 10

Adroddiad gan Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg) (ynghlwm).

## 10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm am 3.30yp, ar ddydd Llun, 1 Mawrth, 2021.

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION DYDD LLUN, 28 MEDI 2020

**Yn bresennol:** Mr Godfrey Northam (Llywodraethwr Ysgol Dyffryn Ogwen) (Cadeirydd).

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Cyllid).

**Penaethiaid Ysgolion:**

Uwchradd: Dylan Davies (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog) ac Arwyn Williams (Ysgol Tryfan).

Cynradd: Iona Jones (Ysgol Edmwnd Prys / Bro Cynfal), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn), Alan Wynn Jones (Ysgol Cymerau), Richard Derwyn Hughes (Ysgol Garndolbenmaen) ac Eleri Morgan Davies (Ysgol y Gorlan).

**Undebau Athrawon:** Neil Foden (Ysgol Friars)

**Llywodraethwyr:** Edward Bleddyn Jones (Ysgol Tregarth).

**Ysgolion Eglwys:** Elfed Morgan Morris (Ysgol Llandygai)

**Ysgolion Arbennig:** Donna Roberts (Ysgol Hafod Lon)

**Sylwedydd:** Gwenan Davies Jones (Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd)

**Swyddogion:** Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion), Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion), Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol Mr Godfrey Northam yn Gadeirydd y Fforwm am y flwyddyn 2020/21.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Cemlyn Williams yn Is-gadeirydd y Fforwm am y flwyddyn 2020/21.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet – Addysg), Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Gwilym Jones (Llywodraethwr – Ysgol Borthygest), Anes Gray Frazer (Yr Esgobaeth) a Garem Jackson (Pennaeth Addysg).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, 2020 fel rhai cywir, yn amodol ar y cywiriad isod:-

Nododd y Cadeirydd, er iddo ofyn ar gychwyn y cyfarfod diwethaf fod llythyr yn cael ei anfon at y bobl oedd yn absennol o'r cyfarfod, nid oedd yn credu iddo ddatgan bod angen gofyn beth oedd y rheswm dros yr absenoldebau hynny.

**6. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cadeirydd ynglŷn ag aelodaeth y fforwm, nodwyd:-

- Nad oedd unrhyw un wedi datgan nad oeddent yn dymuno parhau i fod ar y fforwm.
- Y trafodwyd y bylchau yn yr aelodaeth gyda'r Uned Llywodraethwyr a bod bwriad i ofyn i'r Gymdeithas Llywodraethwyr benodi i'r seddi gweigion erbyn cyfarfod nesaf y fforwm.

**7. CYFRIFON TERFYNOL YSGOLION BLWYDDYN GYLLIDOL 2019-20**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion yn manylu ar gyfrifon terfynol ysgolion am y flwyddyn gyllidol 2019/20.

Nododd y Cadeirydd fod sefyllfa Ysgol Uwchradd Tywyn wedi newid yn syfrdanol o ddiffyg o -£49,045 ar 31 Mawrth 2018 i falansau o £115,668 ar 31 Mawrth eleni, a'i bod yn amlwg bod gweithredu wedi bod ar ran y llywodraethwyr, y pennaeth a'r swyddogion.

Nodwyd nad oedd y sefyllfa yn gyson ar draws y sector a bod y cynnydd o tua £450,000 ym malansau'r ysgolion uwchradd i'w briodoli bron yn gyfan gwbl i ddwy ysgol.

Nododd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion fod cyfrifwyr ysgolion Cymru wedi cyflawni ymarferiad ar falansau ysgolion, oedd yn gwahaniaethu rhwng y balansau a'r diffygion, a'i bod yn syndod gweld bod cymaint o ysgolion yn cario diffygion mor sylweddol yn eu cyfrifon o flwyddyn i flwyddyn. Roedd beirniadaeth yn flynyddol ar ysgolion am gario balansau, ond roedd cymryd y diffygion roeddent yn gario i ystyriaeth yn dod â'u sefyllfa net i lawr.

Nododd yr Uwch Reolwr Ysgolion fod yna stori y tu ôl i bron bob achos o falansau uchel, ac nad achosion unigol o'r fath oedd yn ei bryderu, eithr balansau cyson uchel.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Y dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio'n agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib'.**

**(b) Y dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**

**8. GRANTIAU YSGOLION 2020-21**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion yn manylu ar sefyllfa grantiau ysgolion 2020/21.

Holodd y Cadeirydd a oedd dyfodiad y Grant Rhaglen Cyflymu Dysgu newydd wedi arwain at docio rhai grantiau eraill. Mewn ymateb, eglurodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion mai'r Grant Datblygu Proffesiynol oedd yr unig un oedd wedi ei leihau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth.**

**9. MATERION ARIANNOL COVID-19**

Cyflwynwyd – diweddariad ar lafar ar y materion canlynol yn sgil Covid-19:-

- Gwariant ychwanegol
- Lleihad incwm
- Arall

Nododd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion:-

- Bod Llywodraeth Cymru wedi rhannu'r arian y gall awdurdodau ei hawlio, sef costau ychwanegol a cholled incwm yn sgil methu gweithredu yn ôl yr arfer.
- Bod y math o wariant ychwanegol a hawliwyd ar lefel ysgolion tua £50,000, a bod yr Adran Addysg wedi bod yn cyflwyno ceisiadau hefyd.
- Mai'r prif gostau oedd costau paratoi prydau am ddim, gyda rhywfaint o gostau cludiant hefyd.
- Bod yr ysgolion wedi wynebu costau glanhau ychwanegol hefyd, ynghyd â dros £20,000 ar gyfer arwyddion cadw 2 fetr o bellter, ac ati.
- Mai'r prif incwm a hawliwyd gan Lywodraeth Cymru oedd prydau ysgol. Roedd y Cyngor wedi methu gweini prydau am 5 mis, ond yn dal yn gorfod cyflogi'r staff.
- Y byddai'r Pennaeth Cyllid yn adrodd i Gabinet y Cyngor ar 13 Hydref ar y monitro diweddaraf a sefyllfa Gwynedd erbyn hynny.
- O ran y cynllun ffyrlo, dim ond y gwasanaethau hynny oedd yn colli incwm oedd yn gallu hawlio, felly nid oedd yn berthnasol i sefyllfa ysgolion, ac eithrio dwy ysgol oedd yn paratoi bwyd eu hunain neu'n darparu chwaraeon. Derbyniwyd grant ffyrlo ar gyfer rhai staff, a byddai mwy o wybodaeth ar gael yn dilyn cyfarfod y Cabinet.

Nodwyd bod yr ysgolion yn wynebu costau o'r newydd ers yr haf, e.e. sgriniau ac ail-ffitio'r ffreutur. Mewn ymateb, eglurodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion bod bwriad i'r ysgolion fedru hawlio ar gyfer hynny tan 30 Medi.

Holwyd sut roedd yr ysgolion am fedru hawlio incwm prydau ysgol. Mewn ymateb, eglurodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion fod hyn yn digwydd ar lefel yr awdurdod ac yn rhan o adroddiad y Pennaeth Cyllid i'r Cabinet ar 13 Hydref. Gofynnwyd a fyddai'r arian yn dod i gyllidebau'r ysgolion, ac atebodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion ei bod yn mawr obeithio y byddai.

## 10. STRATEGAETH DDIGIDOL YSGOLION GWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion) a Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth) yn rhoi diweddariad i aelodau'r Fforwm ar Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd ers y cyfarfod diwethaf ar 2 Mawrth, 2020.
Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth na dderbyniwyd ymateb gan bawb hyd yma i'r llythyr yn gofyn am ddarlun cynhwysfawr o fwriadau'r ysgolion a gallu eu cyllidebau i fuddsoddi mewn cyfarpar. Bwriedid gofyn i'r penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr yr ysgolion ymateb erbyn diwedd yr wythnos, fel y gellid adrodd yn ôl i'r Cabinet, a fyddai'n mabwysiadu'r strategaeth yn derfynol. Nid oedd unrhyw gwestiwn penodol wedi codi o ran y strategaeth ddigidol, heblaw'r cwestiwn mawr o ran sut i'w ariannu.

Ategodd Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion sylwadau'r Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth gan nodi hefyd y bu'n rhaid rhoi'r archeb am y dyfeisiadau i mewn ym mis Medi, er bod y drafodaeth yn parhau.

Nododd rhai penaethiaid:-

- Bod yr holiadur yn rhoi penaethiaid mewn sefyllfa anodd. Roedd yn golygu bod rhaid rhoi ateb pendant i'r cwestiwn o gyfrannu'n llawn, ond er na ddymunid peryglu'r strategaeth, roedd llawer o ysgolion yn mynd i'w chael yn anodd ymrwymo i gyfrannu'n llawn tuag at gostau adnewyddu'r offer.
- Er y croesawid y buddsoddiad yn gyffredinol, bod gan yr ysgolion bryderon, e.e. nid oedd sgriniau gwyn rhyngweithiol wedi'u cynnwys, a byddent yn dod i ddiwedd eu hoes ar yr un pryd â'r dyfeisiadau. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth efallai bod offer fel sgriniau yn fater i ail-edrych arno.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth.**

**11. CYLLID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad gan Ffion E.Ellis (Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Dysgu Ychwanegol) yn manylu ar waith y Gweithgor Cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol yng nghyswllt yr Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

Nododd Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion fod y gweithgor wedi'i sefydlu ac wedi cyfarfod, ond, oherwydd y pandemig, nid oedd y drafodaeth wedi mynd rhagddi fel y byddai pawb wedi dymuno, a bod yr amserlen ar gyfer gweithredu wedi'i hadolygu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth.**

**12. DYDDIAD CYFARFODYDD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2020-21**

Nododd sawl aelod fod cyfarfod am 3.30yp ar ddydd Llun yn gyfleus iddynt. Gan hynny, cytunwyd i gynllunio dyddiadau ar y sail honno ar gyfer y flwyddyn academaidd, gyda'r cyfarfod nesaf i'w gynnal yn ystod mis Tachwedd.

Nododd yr Aelod Cabinet Cyllid fod 2020/21 wedi bod yn flwyddyn ariannol heriol, a'i bod bellach yn amser cychwyn edrych ar gyllideb 2021/22. Ychwanegodd, er na allai warantu hynny, ei fod yn mawr obeithio na fyddai'n rhaid torri ar addysg yng nghyllideb y flwyddyn nesaf.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 y.h. a daeth i ben am 4.10 y.h.

**CADEIRYDD**

EITEM 6

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| DYDDIAD | **25 Ionawr 2021** |
| TEITL | **Rhagolygon Ysgolion** |
| PWRPAS | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| ARGYMHELLIAD | **Derbyn yr adroddiad** |
| AWDUR | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

Darparwyd rhagolwg cyllidol 3 mlynedd i ysgolion ddechrau mis Rhagfyr 2020 ar sail cyfrifiad nifer disgyblion Medi 2020 -

| effaith demograffi | 2021/22 | | 2022/23 | | 2023/24 | | cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cynradd | -169 | -£309mil | -141 | -£468mil | -126 | -£281mil | -436 | -£1,058mil |
| uwchradd | +118 | +£447mil | +115 | +£457mil | -7 | -£45mil | +226 | +£859mil |
| arbennig | dim yn rhagweld newid yn y niferoedd | | | | | | | |
| cyfanswm | -51 | +£138mil | -26 | -£11mil | -133 | -£326mil | -210 | -£199mil |

Mae’r ystadegau yn dangos niferoedd cynradd yn lleihau yn sgil disgyblion hŷn yn symud fyny i’r sector uwchradd, tra mae niferoedd sy’n cychwyn cynradd wedi/yn lleihau.

Felly dros y 3 mlynedd rhagwelir lleihad oddeutu £1miliwn o arian yn ein hysgolion cynradd - cyfwerth ac oeddeutu 18 yn llai o athrawon. Mae’r cynnydd yn y sector uwchradd cyfwerth â chynnydd o 15 athrawon. Pella i’r dyfodol mae’r ysgolion yn rhagweld niferoedd e.e. Medi 2022 anoddach ydi hi i ragweld y niferoedd yn gywir. Yn amlwg, mae gwahaniaethau o ysgol i ysgol o fewn y sectorau o ran cynnydd/lleihad niferoedd.

Bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i’r Fforwm ar gyllideb Y Cyngor am 2021/22 ac yn amlygu unrhyw effaith ar gyllid ysgolion.

Bydd Swyddog Addysg yn adrodd i’r Fforwm ar Strategaeth Digidol Ysgolion.

Tydi grantiau ysgolion am 2021/22 ddim wedi’u cadarnhau ac nid oes gwarant bod pob grant yn parhau nac yn cynyddu/lleihau ar gyfer flwyddyn nesaf. Ychydig yn bryderus bydd y wybodaeth yma ddim ar gael am beth amser eto.

Argymhelliad
Derbyn y wybodaeth

EITEM 9

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| DYDDIAD | **25 Ionawr 2021** |
| TEITL | **Cytundebau Lefel Gwasanaeth 2021-24** |
| ARGYMHELLIAD | **Derbyn yr adroddiad** |
| AWDUR | **Owen Owens**<br>**Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg** |
| AELOD CABINET DROS ADDYSG | **Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |

Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer amrediad o wasanaethau i ysgolion. Mae cyfnod y cytundebau isod yn dod i ben ar 31/03/21.

| **CLG** | **Math o ysgol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cynradd** | **Uwchradd** | **Arbennig** | **Dilynol** |
| Arlwyo | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Glanhau a Gofalu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Canolfan Fusnes Addysg | ✓ | | | |
| Cynnal Tiroedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Mae'r cytundebau Arlwyo, Glanhau a Gofalu a Chanolfan Fusnes Addysg yn cael eu cynnig eto am y cyfnod 01/04/21 i 31/03/24. Mae'r cytundeb Cynnal Tiroedd yn cael ei gynnig am flwyddyn (01/04/21 i 31/03/22), gan fod y gwaith o fodelu dyraniadau ar gyfer Cynnal Tiroedd i ysgolion fel eu bod yn adlewyrchu'n well gofynion cynnal tiroedd y safleoedd unigol yn parhau.

Mae proses ymgynghori yn cael ei gynnal gydag ysgolion parthed y Cytundebau Lefel Gwasanaeth fydd yn cael eu cynnig iddynt yn Ebrill 2021.

Mae'r ysgolion wedi derbyn copïau o'r CLGau drafft a gyflwynwyd gan y gwasanaethau, gan amlygu'r y newidiadau ynddynt o'u cymharu â'r CLGau presennol. Mae'r ysgolion wedi cael eu gwahodd i gyflwyno unrhyw sylwadau erbyn 12 Chwefror, 2021.

***Argymhellir bod Fforwm Cyllideb Ysgolion yn derbyn yr adroddiad.***